# PANEL CANIATÂD ARBENNIG (Y PWYLLGOR SAFONAU)

## Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd ar 30 Ebrill 2026

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | **Aelodau Annibynnol** |
| | Mr Brace Griffiths (Cadeirydd)<br>Mr Trefor Owen |
| | **Yn cynrychioli Cynghorau Tref a Chymuned** |
| | Y Cynghorydd Iorwerth Roberts |
| **WRTH LAW:** | Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol/Dirprwy Swyddog Monitro (GPW)<br>Swyddog Pwyllgorau (SC) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Rhian Jones (Cyngor Tref Biwmares) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |

---

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Rhian Jones, aelod o Gyngor Tref Biwmares, i gyfarfod o'r Panel Caniatâd Arbennig.

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2 CAIS AN GANIATÂD ARBENNIG**

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol/Dirprwy Swyddog Monitro (GPW) fod y Cynghorydd Rhian Jones o Gyngor Tref Biwmares wedi gwneud cais am ganiatâd arbennig. Roedd y Cynghorydd Jones wedi gofyn i'r Swyddog Monitro am gyngor ac roedd wedi penderfynu fod gan y Cynghorydd ddiddordeb sy'n rhagfarnu oherwydd ei chysylltiadau teuluol â Chadeirydd ac Is-gadeirydd Siambr Fasnach a Thwristiaeth Biwmares.

Mae'r Cynghorydd Jones yn gofyn am ganiatâd arbennig er mwyn caniatáu iddi gyfranogi'n llawn mewn trafodaethau yng nghyfarfodydd Cyngor Tref Biwmares mewn perthynas â materion yn ymwneud â Siambr Fasnach a Thwristiaeth Biwmares.

Rhoddwyd cyfle i'r Cynghorydd Jones siarad o blaid ei chais. Dywedodd mai hi yw Dirprwy Faer Cyngor Tref Biwmares ar hyn o bryd ac y gallai gael ei hethol yn Faer yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor Tref ar 5 Mai 2026. Pe byddai'r

caniatâd arbennig yn cael ei wrthod, dywedodd y gallai hynny greu anawsterau mewn perthynas â swydd y Maer. Pe byddai caniatâd arbennig yn cael ei roi, awgrymodd y gellid gosod amod yn ei gwahardd rhag siarad ar unrhyw fater yn ymwneud â’r busnesau penodol y mae ei theulu’n gysylltiedig â nhw.

Ar ôl clywed am gefndir y cais am ganiatâd arbennig gan yr ymgeisydd, cynhaliodd y Panel sesiwn breifat er mwyn penderfynu a ddylid rhoi caniatâd arbennig ai peidio, ac os byddai caniatâd arbennig yn cael ei roi, ystyried (i) ar ba sail neu seiliau y rhoddir y caniatâd arbennig ac (ii) a oes angen gosod unrhyw gyfyngiadau.

**PENDERFYNWYD rhoi caniatâd arbennig i’r Cynghorydd Jones yn rhinwedd ei swydd fel Cynghorydd ar Gyngor Tref Biwmares mewn perthynas â’r buddiannau hynny y cyfeiriwyd atynt yn y cais. Mae’r caniatâd arbennig yn rhoi hawl i’r Cynghorydd: -**

- **ysgrifennu at swyddogion a/neu’r Pwyllgor/Cyngor Tref am y mater;**
- **siarad â swyddogion y Cyngor Tref am y mater, ar yr amod nad yw’r ymgeisydd yn siarad â swyddogion am y busnesau unigol penodol a weithredir gan bobl y mae ganddi gysylltiad teuluol â nhw; ac**
- **aros yn yr ystafell yn ystod unrhyw drafodaeth/pleidlais ar y mater;**

**Gweithredoedd:**

- **Bydd rhaid i’r Cynghorydd Rhian Jones ddatgan diddordeb sy’n rhagfarnu pan fydd hi’n mynychu cyfarfodydd y Cyngor a phob cyfarfod perthnasol arall.**
- **Bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at y Cynghorydd Jones i gadarnhau bod y Panel Caniatâd Arbennig wedi rhoi caniatâd arbennig gyda’r cyfyngiadau a nodir yn yr Hysbysiad o Benderfyniad**
- **Bydd y caniatâd arbennig yn dod i ben cyn pen 12 mis o ddyddiad Hysbysiad o Benderfyniad y Panel Caniatâd Arbennig, sef 30 Ebrill 2027.**

Daeth y cyfarfod i ben am 11:10 am

**MR BRACE GRIFFITHS**
**CADEIRYDD**